**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref KS/04233/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau

21 Gorffennaf 2020

Annwyl Janet

Diolch am eich llythyr dyddiedig 6 Gorffennaf ynghylch sicrhau bod busnesau manwerthu yn gwbl hygyrch.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn deall y gall unrhyw newidiadau i'r amgylchedd ffisegol greu anawsterau i bobl ddall a phobl sydd â nam ar eu golwg gan y gall llwybrau fod yn anghyfarwydd ac yn anodd eu rhagweld. Mae Llywodraeth Cymru wedi atgoffa Awdurdodau Lleol ynghylch eu dyletswydd i sicrhau bod unrhyw newidiadau i amgylcheddau ffisegol yn cael eu gweithredu mewn modd nad yw'n creu anawsterau anfwriadol ar gyfer pobl anabl.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gynnal Asesiadau Effaith Integredig ac ymgysylltu'n rhagweithiol â phobl anabl lle y gallai effeithiau anfwriadol ddigwydd. Mae angen i Awdurdodau Lleol allu darparu tystiolaeth, ar gais, fod hyn wedi digwydd cyn y gallwn ryddhau cyllid.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydweithio'n agos â manwerthwyr a Chonsortiwm Manwerthu Cymru er mwyn sicrhau bod camau digonol yn cael eu cymryd i ddiwallu anghenion defnyddwyr anabl o fewn cyfyngiadau'r protocolau ynghylch cadw pellter cymdeithasol. Mae'r gwaith hwn yn barhaus a bydd angen mynd i'r afael â bylchau o safbwynt cymorth, ac yn arbennig o ran grwpiau agored i niwed ar lefel ehangach, gan gynnwys y rhai nad yw eu llais bron byth yn cael ei glywed, y rhai agored i niwed a'r rhai sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol.

Mae cyfarfodydd rhwng aelodau o Gonsortiwm Manwerthu Cymru a sefydliadau anableddau wedi profi'n ddefnyddiol o safbwynt rhannu gwybodaeth ac adborth ynghylch y cyfathrebu a'r addasiadau sy'n ofynnol er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr a gweithwyr anabl. O'r herwydd mae llawer o fanwerthwyr wedi cynnig oriau penodedig ar gyfer defnyddwyr hŷn a defnyddwyr agored i niwed, a hefyd wedi caniatáu i gynorthwywyr personol siopa gyda phrynwyr pan fo angen. Mae archfarchnadoedd hefyd wedi cyflwyno talebau neu gardiau rhodd electronig, sy'n galluogi i aelodau o deuluoedd, ffrindiau a

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

gwirfoddolwyr siopa ar ran pobl eraill. Maent hefyd yn cynnig hyfforddiant i staff ynghylch y ffordd orau o ddiwallu anghenion eu cwsmeriaid anabl.

Wrth i'r cyfyngiadau ar rannau o'r economi gael eu llacio'n ofalus gan gynnwys lletygarwch a manwerthu mae'n bwysicach nag erioed i sicrhau bod y cyhoedd a gweithluoedd yn ddiogel. Wrth i'r economi ailagor mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i anghenion y cyhoedd o ran hygyrchedd gael eu diwallu'n llwyr lle y bo'n bosibl. Os yw'r cyfreithiau ynghylch cadw pellter o 2 fetr yn gwneud hynny'n anodd mae'n ofynnol cyflwyno trefniadau eraill digonol ar gyfer sicrhau mynediad.

Rydym yn deall, fodd bynnag, fod llawer iawn mwy o waith i'w wneud ac mae swyddogion yn parhau i gydweithio â manwerthwyr er mwyn sicrhau bod modd i bobl ddall a phobl sydd â nam ar eu golwg barhau'n annibynnol wrth i fesurau'r cyfnod clo gael eu llacio. Caiff y materion yr ydych yn tynnu sylw atynt yn eich llythyr, a hefyd y ddeiseb a gyflwynwyd, yn cael eu hystyried.

Yn gywir



**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales